Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan

RWE

# y diweddaraf o'r ystafell newyddion

## Gaeaf 2023/24



Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

# croseo

Cylchlythyr gaeaf 2023/24

## Croeso i rifyn y gaeaf o gylchlythyr Awel y Môr.

Cafodd y prosiect ei Orchymyn Cydsyniad Datblygu ym mis Medi a'i drwyddedau morol ym mis Tachwedd, felly rydyn ni nawr yn dechrau ar gam newydd.


Oherwydd hyn, bydd 2024 yn flwyddyn brysur wrth i ni baratoi ar gyfer dechrau'r gwaith adeiladu yn yr is-orsaf ar y tir yn 2025.

Bydd ein hymgyrch ymchwiliadau safle ar y môr, a ddechreuodd ar y môr fis diwethaf, yn parhau tan ddiwedd y gwanwyn. Bydd rhywfaint o weithgarwch hefyd ar safle'r is-orsaf arfaethedig ym Modelwyddan ac o'i chwmpas, yn ogystal ag ar hyd coridor y ceblau yn Sir Ddinbych.

Yn yr is-orsaf ar y tir, bydd ffosydd dros dro ar y safle yn cael eu cloddio er mwyn cynnal ymchwiliadau archeolegol angenrheidiol. Ar ben hynny, ar safle'r is-orsaf yn ogystal ag ar hyd llwybr y ceblau, byddwn yn defnyddio rig tyllau turio bach i gymryd samplau wrth i ni brofi cyflwr y tir.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y prosiect a'i gefndir, ewch i'n gwefan lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth o'i ddechreuad hyd at sut y gall busnesau a darpar gyflenwyr gofrestru eu diddordeb drwy ein rhaglen **Supplier Transparency Engagement Programme (https://awelymor.cymru/suppliers)**.





# Fferm Wynt Ar y Môr Awel y Môr yn cael cymeradwyaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Roedd cael ei drwyddedau morol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn foment bwysig i Awel y Môr, sydd bellach wedi symud i gam datblygu newydd.

Mae'r pedair trwydded forol benodol hyn yn ymdrin â gwahanol agweddau ar y gwaith adeiladu a fydd yn digwydd yn nyfroedd Cymru.


Dywedodd Tamsyn Rowe, Rheolwr y Prosiect: "Gyda'r trwyddedau morol bellach ar waith, gall fferm wynt ar y môr Awel y Môr barhau i symud ymlaen i gamau nesaf y prosiect.

"Fel uchafbwynt dros bum mlynedd o waith yn cynnwys ymgynghori a chasglu data helaeth, mae hyn yn gyflawniad sylweddol i'r tîm.

"Maen nhw nawr yn gweithio'n galed yn mireinio'r cynlluniau ar gyfer adeiladu ar y môr ac ar y tir, ac yn cymryd y camau angenrheidiol i'n galluogi i wneud Penderfyniad Buddsoddi Terfynol.

"Rydyn ni'n parhau i ddatblygu cynlluniau i gefnogi cwmnïau sy'n awyddus i ymuno â'r gadwyn gyflenwi. Ar ben hynny, rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ar gael yn y gweithlu er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r fferm wynt fwyaf yng Nghymru ar ôl ei chwblhau."





Mae gan gwch codi Seafox 7 goesau hir 70m sy'n ei godi uwchben y tonnau tra bod samplau tyllau turio yn cael eu cymryd o wely'r môr.

# Gwaith ymchwilio yn dechrau o dan y contract mawr cyntaf

Mae gwaith i archwilio daeareg amgylchedd arfordirol gogledd Cymru wedi dechrau, fel rhan o'r contract mawr cyntaf a ddyfarnwyd ar gyfer ein prosiect ar ôl cael cydsyniad datblygu.

Gadawodd cwch codi Seafox 7 Gaergybi ar ddiwedd mis Tachwedd a bydd yn treulio hyd at chwe mis oddi ar arfordir gogledd Cymru wrth i gontractwyr Fugro gymryd samplau tyllau turio o wely'r môr.

Bydd y samplau hyn yn helpu tîm Awel y Môr i fapio'r ddaeareg waelodol er mwyn mireinio dulliau gosod tyrbinau a phennu lleoliadau tyrbinau yn fanwl.

Dywedodd Tamsyn Rowe, Arweinydd Prosiect Awel y Môr: "Mae gwely'r môr ym Mae Lerpwl yn adlewyrchu'r dirwedd ar y tir yng Nghymru, gan fod llawer ohono wedi'i ffurfio yn sgil yr oes iâ ddiwethaf, gyda chreigiau caletach a meddalach mewn haenau gwahanol ar draws ardal yr aráe, ac mae'n gyfle diddorol i ddysgu mwy am yr hyn sydd o'n cwmpas.

"Mae hyn hefyd yn cyflwyno her unigryw o ran arloesi ym maes peirianneg; un y mae RWE wedi'i hwynebu'n barhaus ers i ni ddatblygu'r fferm wynt ar y môr gyntaf ar raddfa fasnachol yn y DU – yng Ngogledd Hoyle, yma yng ngogledd Cymru."

Mae'r Seafox 7 yn gwch codi â phedair coes sy'n gallu codi ei hun ac sy'n dal 113 o bobl. Caiff ei defnyddio ar gyfer adeiladu, cynnal a chadw a gwahanol wasanaethau, ac mae'n gallu gweithredu drwy gydol y flwyddyn mewn dyfnderoedd o hyd at 40m.

Dywedodd Matthew Chappell, Cyfarwyddwr Llinell Gwasanaeth Rhanbarthol Ger y Glannau Fugro ar gyfer Ewrop ac Affrica: "Mae Fugro yn falch o fod yn rhan o'r garreg filltir bwysig hon ar gyfer prosiect Fferm Wynt Ar y Môr Awel y Môr. Bydd ein harbenigedd mewn archwilio safleoedd gwely'r môr ger y glannau a samplu daearegol yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o helpu tîm Awel y Môr i fireinio eu dulliau gosod tyrbinau ac i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am leoliadau'r safle.

"Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio'n agos gydag RWE a thîm Awel y Môr yn y cam cychwynnol hwn, gan osod y llwyfan ar gyfer trawsnewid ynni glân a fydd o fudd i gymunedau lleol a'r amgylchedd."

# Digwyddiad gyrfaoedd Dewiswch Eich Dyfodol




Roedd Poppy Tremayne, Isobel Emery a Josh Morris o dîm Awel y Môr, ynghyd â Luke Skeffington o Fferm Wynt ar y Môr Gwastadeddau'r Rhyl RWE ym Mhorthladd Mostyn, yn bresennol mewn digwyddiad "Dewiswch eich Dyfodol" yn Abergele ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych a Chonwy, yn ogystal â'u rhieni a'u gofalwyr.

Yn ystod y prynhawn, buont yn siarad â channoedd o unigolion i roi gwybod iddynt am y nifer a'r amrywiaeth enfawr o rolau sy'n gweithio ar gynnal a datblygu ynni adnewyddadwy ar garreg eu drws yma yng ngogledd Cymru.

# Cynnydd yng nghapasiti'r prosiect ar y gorwel

Gallai Awel y Môr, sef fferm wynt ar y môr fwyaf Cymru pan fydd wedi'i hadeiladu, gynyddu faint o bŵer mae'n bwriadu ei gynhyrchu, gan olygu y bydd yn cynhyrchu pŵer sy'n cyfateb i dros hanner cartrefi Cymru.

Mae tîm y prosiect yn credu, diolch i ddatblygiad technoleg cynhyrchu ar y môr, y gellid cynyddu'r capasiti cynhyrchu presennol gan aros o fewn y cyfyngiadau fel y nodir yn y gorchymyn cydsyniad datblygu a thrwyddedau morol, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Ystad y Goron.

Mae gan Awel y Môr ganiatâd gan Lywodraeth y DU i godi a phweru hyd at 50 tyrbin gydag uchder mwyaf o 332m, yn ogystal â phedair trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Awel y Môr yn un o bedwar cynllun dan arweiniad RWE y gellid cynyddu eu capasiti.

Ychwanegodd Danielle Lane, Cyfarwyddwr Datblygu RWE ar gyfer y DU ac Iwerddon: "Rydyn ni'n croesawu penderfyniad Ystad y Goron i ystyried cynyddu'r capasiti ar gyfer y pedwar prosiect datblygu hyn.

"Fel y cynhyrchydd pŵer mwyaf yn y DU, mae gennym uchelgais i fuddsoddi hyd at £15bn mewn seilwaith a phrosiectau ynni glân newydd erbyn 2030.

"Mae galluogi prosiect i gynhyrchu rhagor o drydan o fewn yr un amlen gwely'r môr yn ffordd effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau."





# Awel y Môr yn croesawu rheolwr cydsyniad newydd

Nawr bod prosiect Awel y Môr yn symud i gam newydd, mae aelod newydd o staff wedi ymuno. Mae hi'n arbenigo mewn cydsyniadau ar y môr.

Roedd Sinead Petersen, y Rheolwr Cydsyniadau Ar y Môr, arfer gweithio mewn ymgynghoriaeth arbenigwr ynni ar nifer o brosiectau ar y môr ar draws sectorau.

Dywedodd Sinead: "Yn ystod fy misoedd cyntaf gydag RWE, fe wnes i ymweld â nifer o'i safleoedd adnewyddadwy yma yng ngogledd Cymru, gan gynnwys ein fferm wynt ar y tir fwyaf yng Nghoedwig Clocaenog a Dolgarrog, lle mae ein safle trydan dŵr 110 oed.

"Ar ôl symud i ynni adnewyddadwy ychydig flynyddoedd yn ôl o gwmni sy'n canolbwyntio ar olew a nwy, rwy'n edrych ymlaen at gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r cam nesaf yn nhaith ynni adnewyddadwy gogledd Cymru."




Sinead yn Fferm Wynt Coedwig Clocaenog RWE